

Cofnodion cyfarfod 2/12/2021

Preseanol: Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Heledd Roberts, John Caradog Williams (*Canolfan Henblas*)

Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands (*trwy gyfrwng Zoom*)

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd pawb gan y Maer, O Rhys Evans a** derbyniwyd ymddiheuriadau'r Dirprwy Faer Sharon Evans, Elin Hedd ac Eluned Jones.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 7fed.

4. **Eitemau o Agenda Tachwedd** (gohiriwyd i fis Rhagfyr)

A. **Ystyried Cynllun Datblygu Cyngor Tref Y Bala :** Cytunwyd i ohirio'r drafodaeth tan y flwyddyn newydd. Cytunwyd ymhellach i wahodd pobl ifanc a oedd wedi creu cyflwyniad dramatig ar ddyfodol Y Bala i gyflwyno eu syniadau i'r Cyngor ac i Mabon ap Gwynfor mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor. Byddai hyn, a derbyn gwybodaeth am Gynllun Ardal Llanuwchllyn, ynghyd â mwy o sesiynau dan ofal Gwynedd 2035 yn rhoi sail gadarn ar gyfer trafodaeth ystyrlon o'r ffordd ymlaen i'r Bala.

B. **Materion Cyllid Tachwedd:** Cadarnhawyd taliadau o dan Gytundebau:

- a. **GP Edwards** – Cynnal y Domen
- b. **Ali Roodbar** – Glanhau Llochesi
- c. **Y Clerc** – cyflog mis Hydref

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd fod Cyngor Gwynedd yn parhau i ufuddhau i Lywodraeth Cymru ac yn gweithio trwy gyfrwng Zoom hyd y bo'n bosib. Crewyd gangiau cymunedol o weithwyr i dacluso'r hyn sydd ei angen ei wneud mewn cymunedau, trefydd ac ysgolion. Byddant yn ymgynghori gyda'r cynghorau lleol cyn cyrraedd i roi sglein yn ol i'r cymunedau. Mae gwaith cyfreithiol yng nghlwm a'r Ganolfan Deulu bron a dod i ben. Mae wedi cycwyn trafodaethau gyda swyddogion i weld beth sy'n digwydd i Neuadd Buddug ac Ysgol Bro Tegid, felly gobeithia y bydd yn gallu adrodd yn ol yn gyson ar hyn. Canmolodd y cynhyrchiad "Fanma" rhwng Cwmni'r Frân Wen a Theatr Derek Williams. Awgrymodd ein bod yn cyfarfod gyda'r bobl ifanc mewn lleoliad llai ffurfiol i wrando ar eu syniadau. Mae swyddog prosiect wedi ei apwyntio i yrru ymlaen Llwybr Diogel i'r ysgol.

Awgrymodd mewn ymateb i sylw i ddefnyddio ap Gwynedd os oes problemau gyda chasglu'r biniau.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adroddiad. Cytunwyd i geisio cynnal cyfarfod arbennig mewn safle llai ffurfiol gyda'r bobl ifanc a Mabon ap Gwynfor ym mis Chwefror; bydd o gymorth i'r Cyngor lunio Cynllun Datblygu. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n ceisio cael cyllid gan yr Heddlu i hyrwyddo hyn.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a diolchwyd iddo am y diweddariad ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar lan y llyn. Addawodd dosbarthu'r newyddion misol mwyaf diweddar at y Cyngor. Maent yn paratoi llwybrau dros dro ar gyfer cychwyn ar y gwaith yn Ionawr. Bydd system un ffordd ar hyd Heol Tegid.
7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad Is- Bwyllgor y Nadolig. Mae'r trefniadau gyda Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud a'r goleuadau ar y Stryd Fawr ymlaen, yn cynnwys y goeden fawr a rennir gyda Hynafolion Hefin. Er nad oes Noson Siopa Hwyr eleni oherwydd y Covid, bydd y gystadleuaeth ffenest siop yn cael ei chynnal.

Bydd yr is-bwyllgor Cyllid yn cael ei gynnal yn fuan.

8. **Materion Cynllunio:** NP5/53/589 **14 Mawnog Fach, Bala. LL23 7YY** Codi estyniad unllawr ar y blaen (e-bostiwyd) – Cymeradwywyd y cais.
9. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ddiweddaraf. Cytunwyd ar daliadau o dan y pennawd Cytundebau sef Glanhau Llochesi (Rhagfyr); Clerc (Tachwedd). Cytunwyd hefyd i dalu

SLCC: £49.50

Gwefan £250

Cyngor Gwynedd cyfraniad at y toiledau 2021/22 £8000 – **ar ol derbyn manylion llawn**

Debyd uniongyrchol Ico £35

Clwb pêl droed Y Bala £96

Derbyniadau a ddisgwyllir:

£2925.40 (ardoll o fis Ebrill tan ddiwedd Tachwedd);

£1500 cymhorthdal gan Gyngor Gwynedd at gynnal y Domen

Gofynwyd i'r Is-bwyllgor Cyllid wneud argymhellion i'r Cyngor llawn parthed cyfraniadau cymunedol a ohiriwyd ers Mawrth 2021 oherwydd Covid.

Er mwyn bodloni gofynion yr Archwilwyr, gofynnwyd i'r Clerc geisio cael mantolen fanwl costau cynnal y toiledau i Gyngor Tref Y Bala (£8000); byddai'r Archwilydd yn dymuno gweld cynnwys manylion llawn incwm parcio'r meysydd yn Y Bala, ad-daliad TAW, ac incwm grant Llywodraeth Cymru i Gyngor Gwynedd ar gyfer toiledau'r Grŵn.

10. Gohebiaeth:

- i. Gwynedd: Derbyniwyd ymateb i ymholiad am addasrwydd annedd ar gyfer tenantiaid gyda thrafferthion.
- ii. Gwynedd: Derbyniwyd eglurhad Gwyn Lloyd Evans am gau llwybrau tra bo gwaith yn cael ei wneud ar y blaendraeth.

- iii. Gwynedd: Derbyniwyd Adolygiad drafft o Gynllun Datblygu Gwynedd a Môn; nid yw'n uniongyrchol berthnasol i gymunedau o fewn awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.
- iv. Triathlon 2021 – tynnwyd sylw at y cyllid sydd ar gael i glybiau lleol yn sgil Triathlon 2021.
- v. Llywodraeth Cymru: erbyn 23/2/22 Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr; nodwyd derbyn ymateb da (Un Llais Cymru).

11. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Cadarnhawyd enwau'r cynrychiolwyr tan Gyfarfod Blynyddol nesaf Cyngor Tref Y Bala.

12. Asedau'r Cyngor: Tynwyd sylw'r Cynghorydd Dilwyn Morgan fod pryderon yn parhau am ddiffygion y toiled anabl ym maes parcio'r Grŵn.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref: Pryder am yr arwydd anabl newydd tu allan i'r siop gig. Dywedodd Cynghorydd Dilwyn Morgan nad yw'n gyfreithlon hyd nes y bydd wedi ei osod yn y lle cywir a'r marciau cywir ar y ffordd. Nodwyd fod Cynghorydd wedi anfon lluniau yn egluro nad ydyw'n bosib croesi'r ffordd a chyrraedd y pafin yn ddiogel oherwydd mainc ac arwyddion yn rhwystro cadair olwyn. Anfonwyd at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac at NMWTRA i dynnu eu sylw at y diffyg hwn.

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar gyfarfod ZOOM 30/11/21 am Yr Economi Ymweld hyd at 2035.

Mabon ap Gwynfor AS : Cyflwyniad a derbynwest - Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mabon ap Gwynfor am fethu cael mynediad i Ganolfan Henblas , ac ymddiheurwyd iddo yntau am hynny.